# Cefnogi Cynnar
# Early Support

## Summer Bulletin 2011

Published by Contact a Family Wales

The Welsh Assembly Government's **EARLY SUPPORT** initiative is designed to help young disabled children lead ordinary lives by improving the co-ordination of family focused services.

This bulletin tells you more about the free **Development Journals**. There are four types: one for everyone, one for deaf babies and children, one for babies and children with Downs Syndrome and one for babies and children with a visual impairment.

The Development Journal helps families record and celebrate children's learning and development through the early years and to share what they know about their child with other people and with the health professionals they work with. It helps notice, record and celebrate everything that a child learns to do, as time goes by. The material is specifically designed for families who know or suspect that their child is unlikely to progress in the same way or at the same rate as other children.

**Free day courses** are on offer all over Wales this July and September focusing on the Development Journal and how to get the most out of it. The Journal has been specifically developed to help parents record and understand their child's progress and development. It's very user-friendly, fun, helpful and **FREE!** The journal and courses will not always be free so why not book up and order now!

**MORE INFORMATION UNDER 'MATERIALS' ON THE WEBSITE**

**www.earlysupportwales.org.uk**

**The Developmental Journal** describes typical patterns of child development under seven headings:

- Personal and social development, well-being and cultural diversity
- Language, literacy and communication skills
- Mathematical development, problem solving and reasoning
- Welsh language development: this describes children's learning to use and communicate in Welsh.
- Knowledge and understanding of the world
- Physical development: this describes children's physical development, the development of a child's ability to move their bodies and use their senses and movement to explore the world.
- Creative development: this describes children's development of imagination and creativity.

The Developmental journal includes series of 14 Developmental Steps. Each step includes a series of charts that can be filled in when you notice your child doing something you haven't seen them do before.

The charts list skills and behaviours associated with each Step under the seven Areas of Learning described above.

**ORDER VIA THE WEBSITE or telephone 0845 6044648 or email eswales@mediascene.co.uk**

# Cefnogi Cynnar
# Early Support

Summer Bulletin 2011
Published by Contact a Family Wales

## FORTHCOMING FREE TRAINING

Early Support Wales is offering a range of free training events all over Wales this year.

Details of the courses and venues are attached separately in this mailing.

If you would like to know more about any of the training courses please go to the Early Support Wales website or contact Marcia Jones Early Support Administrator on 029 2034 2434, email marcia.jones@childreninwales.org.uk http://twitter.com/#!/early_support_w

## LOCAL PROJECTS: SPEECH AND LANGUAGE PROJECT SOUTH WALES

Early Support Wales funded a project run by the Downs Syndrome Association where 15 speech therapists across Wales were trained on meeting the needs of children with Downs Syndrome and also to act as supervisors to a network of co workers. In addition 27 co-workers (parents, teaching assistants, portage workers and volunteers) were trained to run weekly speech and language therapy groups for children with Downs Syndrome across South Wales. Language groups have been established in Cardiff, Rhondda Cynon Taff, Monmouthshire, Bridgend and Merthyr. For further information please contact Julian.Hallett@downs-syndrome.org.uk.

**To find out about projects and activities in your area get in touch with your ES County Consultant, details on the website.**

## A STORY FROM THE WEBSITE



Hi. I'm Mattie and I love life. You will rarely see me without a smile on my face. I live with my bampy and granny and my auntie and uncle. I love my family very much, and love it when our house has everyone in it, especially if I'm the centre of attention! I'm the most sociable little boy ever, and the life and soul of any party.

I was born at 24 weeks, I was so poorly my family got ready to say goodbye as they didn't think I would make it. But look at me now! I may need lots of equipment and support but I have a fantastic time wherever I go and nothing stops me from having a go at anything.

My body has a mind of its own, and when I'm excited it does the opposite of what I want to do, so watch out or I may give you a thick lip! I'm 4 now and growing up really fast. I really like the 'pooter' and playing the train game and listening to my nursery rhymes. I love reading and books and I've just learnt to turn the pages with my tongue!! I love singing and I'm quite tuneful. In fact sometimes my family can guess what I'm singing from the tune and not the words! I've just started using a special radio at school and now I can hear everything the teacher says. This has given me a whole new range of words to try out on everyone!

**If you would like to post your story please contact Marcia Jones on 02920 342434 or email marcia.jones@childreninwales.org.uk**

# Cefnogi Cynnar
# Early Support

**Bwletin yr Haf 2011**

Cyhoeddwyd gan Cyswllt Teulu Cymru

Mae menter **CEFNOGI CYNNAR** o eiddo Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i chynllunio i gynorthwyo pobl anabl ifanc i arwain bywydau arferol drwy wella'r modd y caiff gwasanaethau sydd wedi'u canolbwyntio ar y teulu eu cydgysylltu.

Mae'r bwletin hwn yn dweud mwy wrthych am y **Cylchgronau Datblygiad** am ddim. Mae yna bedwar math: un ar gyfer pawb, un ar gyfer babanod a phlant byddar, un ar gyfer babanod a phlant gyda Syndrom Down, ac un ar gyfer babanod a phlant gyda nam ar y golwg.

Mae'r Cylchgrawn Datblygiad yn cynorthwyo teuluoedd i gofnodi ac i ddathlu addysg a datblygiad plant drwy'r blynyddoedd cynnar ac i rannu'r hyn y maent yn ei wybod am eu plentyn gyda phobl eraill a gyda'r gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd y maent yn gweithio gyda hwy. Mae o gymorth i sylwi, cofnodi a dathlu popeth y mae plentyn yn ei ddysgu i wneud, fel y mae amser yn mynd heibio.  Mae'r deunydd wedi'i gynllunio'n benodol ar gyfer teuluoedd sy'n gwybod neu'n amau bod eu plentyn yn annhebygol o wneud cynnydd yn yr un ffordd neu ar yr un gyfradd â phlant eraill.

Mae **cyrsiau dydd am ddim** yn cael eu cynnig drwy Gymru i gyd fis Gorffennaf a mis Medi hwn gan canolbwyntio ar y Cylchgrawn Datblygiad a sut i gael y mwyaf ohono. Mae'r Cylchgrawn wedi'i ddatblygu'n benodol i gynorthwyo rhieni i gofnodi a deall cynnydd a datblygiad eu plentyn. Mae'n rhwydd iawn i'w ddefnyddio, yn llawn hwyl, yn llawn cymorth ac **AM DDIM!** Ni fydd y cylchgrawn a'r cyrsiau bob amser am ddim, ac felly pam na wnewch chi fwcio ac archebu yn awr!

**MAE MWY O WYBODAETH O DAN 'DEUNYDDIAU' AR Y WEFAN**

**www.earlysupportwales.org.uk**

Mae'r **Cylchgrawn Datblygiadol** yn disgrifio patrymau nodweddiadol o ddatblygiad plentyn o dan saith pennawd:

- Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol
- Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu
- Datblygiad mathemategol, datrys problemau ac ymresymu
- Datblygiad yn y Gymraeg: mae hyn yn disgrifio addysg plant i ddefnyddio ac i gyfathrebu yn y Gymraeg.
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd
- Datblygiad corfforol: mae hyn yn disgrifio datblygiad corfforol plant, datblygiad gallu plentyn i symud eu cyrff ac i ddefnyddio'u synhwyrau a symudiad i archwilio'r byd.
- Datblygiad creadigol: mae hyn yn disgrifio sut mae plant yn datblygu dychymyg a chreadigrwydd.

Mae'r Cylchgrawn Datblygiadol yn cynnwys cyfres o 14 o Gamau Datblygiadol.  Mae pob un cam yn cynnwys cyfres o siartiau y gellir eu llenwi pan ydych chi'n sylwi ar eich plentyn yn gwneud rhywbeth nad ydych wedi'u gweld hwy'n ei wneud o'r blaen.

Mae'r siartiau'n rhestru sgiliau ac ymddygiadau sy'n gysylltiedig â phob un Cam o dan y saith Maes Dysgu a ddisgrifir uchod.

**ARCHEBWCH DRWY GYFRWNG Y WEFAN neu ffoniwch 0845 6044648 neu e-bostiwch at eswales@mediascene.co.uk**

# Cefnogi Cynnar
# Early Support

Bwletin yr Haf 2011
Cyhoeddwyd gan Cyswllt Teulu Cymru

## HYFFORDDIANT AM DDIM SYDD AR DDOD

Mae Cefnogi Cynnar Cymru yn cynnig ystod o ddigwyddiadau hyfforddi am ddim drwy Gymru i gyd eleni.

Mae manylion y cyrsiau a'r mannau cyfarfod wedi'u hatodi ar wahân yn yr ohebiaeth hon.

Os hoffech wybod mwy am unrhyw rai o'r cyrsiau hyfforddi, a fyddech cystal â mynd i wefan Cefnogi Cynnar Cymru neu cysylltwch â Marcia Jones Gweinyddwr Cefnogi Cynnar ar 029 2034 2434, e-bost marcia.jones@childreninwales.org.uk http://twitter.com/#!/early_support_w

## PROSIECTAU LLEOL: PROSIECT LLEFERYDD AC IAITH, DE CYMRU

Fe wnaeth Cefnogi Cynnar Cymru ariannu prosiect a gynhelir gan y Gymdeithas Syndrom Down lle y cafodd 15 o therapyddion lleferydd ledled Cymru eu hyfforddi ynghylch diwallu anghenion plant sydd â Syndrom Down a hefyd i weithredu fel goruchwylwyr i rwydwaith o weithwyr ar y cyd. Yn ychwanegol, fe hyfforddwyd 27 o weithwyr ar y cyd (rhieni, cynorthwywyr addysgu, gweithwyr Portage a gwirfoddolwyr) i gynnal grwpiau therapi lleferydd ac iaith wythnosol ar gyfer plant sydd â Syndrom Down ledled De Cymru. Mae grwpiau iaith wedi'u sefydlu yng Nghaerdydd, Rhondda Cynon Taf, Sir Fynwy, Pen-y-bont ar Ogwr a Merthyr. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch, os gwelwch yn dda, â Julian.Hallett@downs-syndrome.org.uk.

**I ganfod am brosiectau a gweithgareddau yn eich ardal chi, cysylltwch â'ch Ymgynghorydd Sirol Cefnogi Cynnar; mae manylion ar y wefan.**

## STORI O'R WEFAN



Hi. Mattie wyf i ac 'rwyf yn caru bywyd. Prin y gwnewch fy ngweld i heb wên ar fy wyneb. 'Rwyf yn byw gyda fy nhaid a'm nain a fy modryb a'm hewythr. 'Rwyf yn caru fy nheulu'n fawr iawn, ac 'rwyf wrth fy modd pan fo pawb yn ein tŷ, yn enwedig os mai y fi yw testun y sylw! Y fi yw'r bachgen bach mwyaf cymdeithasol erioed, a bywyd ac enaid unrhyw barti.

Fe'm ganwyd ar ôl 24 wythnos; 'roeddwn mor wael, 'roedd fy nheulu yn barod i ffarwelio, gan nad oeddynt yn credu y byddwn yn byw. Ond edrychwch arnaf yn awr! Efallai bod arnaf angen llawer o gyfarpar a chefnogaeth ond 'rwyf yn cael amser bendigedig ble bynnag 'rwyf yn mynd ac nid oes dim yn fy atal i rhag troi fy llaw at unrhyw beth.

Mae gan fy nghorff ei feddwl ei hun, a phan fyddaf wedi'm cyffroi, mae'n gwneud yn groes i'r hyn y mae arnaf eisiau'i wneud, ac felly cymerwch bwyll neu fe allaf roi gwefus boenus ichi! 'Rwyf yn 4 yn awr ac yn tyfu i fyny'n wirioneddol gyflym. 'Rwyf yn gwirioneddol hoffi'r 'pooter' a chwarae gêm y trên a gwrando ar fy hwiangerddi. 'Rwyf wrth fy modd darllen ac yn hoffi llyfrau, ac 'rwyf newydd ddysgu troi'r tudalennau gyda'm tafod!! 'Rwyf wrth fy modd canu ac 'rwyf yn eitha' soniarus. Mewn gwirionedd, weithiau, fe all fy nheulu ddyfalu beth 'rwyf yn ei ganu o'r diwn ac nid o'r geiriau! 'Rwyf newydd ddechrau defnyddio radio arbennig yn yr ysgol, ac yn awr fe allaf glywed popeth mae'r athro'n ei ddweud. Mae hyn wedi rhoi amrediad cyfan gwbl newydd o eiriau imi'u rhoi ar waith gyda phawb!

**Os fysech hoffi rhannu eich stori cysylltwch a Marcia Jones ar 02920 342434 neu e-bost marcia.jones@childreninwales.org.uk**